Rhestr Ddarllen

# Datblygu Economaidd ac Adfywio

Dyddiad: **Mai 2016**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Cysylltwch â ni**


**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 6328**
**: Llyfrgell@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen

# Datblygu Economaidd ac Adfywio

## Datblygu Economaidd

– Strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru, **Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd.**

– Gwasanaeth cefnogi busnes Llywodraeth Cymru: **Busnes Cymru.**

– Mae **Cyngor Adnewyddu'r Economi** yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i lywio polisïau economaidd a busnes yng Nghymru. Caiff ei gadeirio gan y Prif Weinidog.

– Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **Datganiad Blynyddol ar Gymorth i Fusnesau** (a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2015).

– Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi **9 sector allweddol**, ynghyd â nifer o **gwmnïau angori** a **chwmnïau pwysig rhanbarthol**.

– Mae Llywodraeth Cymru yn marchnata Cymru fel lle i fyw ac i astudio ynddo, i ymweld ag ef a gwneud busnes ynddo ar **wefan Cymru.com**.

– Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad i ddulliau Llywodraeth Cymru o hybu **masnach a mewnfuddsoddi**.

– Sefydlwyd **Tasglu Tata** ym mis Ionawr 2016 yn dilyn y cyhoeddiad am golledion swyddi posibl yng ngwaith dur Tata ym Mhort Talbot.

– Papurau briffio'r Gwasanaeth Ymchwil ar ddur yng Nghymru: **Y pwysau sy'n wynebu'r diwydiant** a **chymorth posibl gan Lywodraeth Cymru**.

– Tudalennau gwe **Ardaloedd Menter** Llywodraeth Cymru: sy'n cynnwys gwybodaeth am ardal fenter newydd **Glannau Port Talbot**.

– Tudalennau Llywodraeth Cymru ar **ddinas-ranbarthau** a'r cyhoeddiad am gytundeb **Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** gwerth £1.2 biliwn.

– Tudalennau Llywodraeth Cymru ar **Gronfeydd Ewropeaidd yng Nghymru**.

– Yn 2014, cyn datganoli ardrethi busnes i Weinidogion Cymru ym mis Ebrill 2015, sefydlodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth **Banel Ardrethi Busnes** i gymryd trosolwg o'r amrywiaeth o argymhellion a wnaed yn flaenorol ar y mater hwn ac i ystyried dull gweithredu strategol o ran ardrethi busnes ar ôl eu datganoli.

– Papur briffio'r Gwasanaeth Ymchwil ar **Fusnesau yng Nghymru: beth yw'r tueddiadau?** Rhagfyr 2015.

– Gwefan **GwerthwchiGymru** Llywodraeth Cymru: mae hwn yn borth caffael y sector cyhoeddus lle gall busnesau chwilio am waith yn y sector cyhoeddus.

– Gwefan **Cyflymu Cymru** BT: Cyflymu Cymru yw prosiect BT sydd wedi'i gyllido gan arian cyhoeddus yn bennaf i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled Cymru.

– Papur briffio'r Gwasanaeth Ymchwil ar yr **ystadegau GVA diweddaraf ar gyfer Cymru**, Rhagfyr 2015.

– Papur briffio’r Gwasanaeth Ymchwil ar **ystadegau diweddaraf y farchnad lafur** ar gyfer Cymru, Mawrth 2016.

## Cyllid Cymru

– Mae **Cyllid Cymru** yn is-gwmni sy’n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru ac yn gwneud buddsoddiadau mewn busnesau bach a chanolig (SMEs) yng Nghymru i’w helpu i dyfu.

– **Adroddiad** y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried pa mor ymarferol yw creu banc datblygu ar gyfer Cymru.

– Yn 2014, cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad **ymchwiliad i’r modd yr oedd Cyllid Cymru yn gweithredu ar y pryd, a’i rôl yn y dyfodol.**

## Twristiaeth

– Strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru: **Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020**.

– Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad i **dwristiaeth.**

– Gwefan **Cynghrair Twristiaeth Cymru**: CTC yw corff y diwydiant twristiaeth yng Nghymru.

## Adfywio

– Fframwaith adfywio Llywodraeth Cymru: **Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.**

– Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Busnes y Pedwerydd Cynulliad i **adfywio canol trefi**.